



Prifysgol Bangor

Adolygiad Sefydliadol gan
yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
Addysg Uwch

Mai 2012

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| Yr adolygiad yma..... | 1 |
| Canfyddiadau allweddol | 2 |
| Beirniadaethau ASA am Brifysgol Bangor..... | 2 |
| Argymhellion..... | 2 |
| Nodweddion o arfer da..... | 3 |
| Canfyddiadau manwl am Brifysgol Bangor | 4 |
| 1 Fframwaith Rheoli Academaidd | 4 |
| Y Senedd, colegau ac ysgolion | 4 |
| Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol a'i grwpiau tasg..... | 4 |
| Atebolrwydd ysgolion a cholegau | 5 |
| Seilwaith Academaidd | 6 |
| 2 Safonau academaidd..... | 6 |
| Cymeradwyo rhaglenni, modiwlau a chyrsgiau | 6 |
| Adolygiad blynyddol..... | 7 |
| Adolygiad cyfnodol | 7 |
| Arholi allanol..... | 8 |
| Asesu | 8 |
| Gwybodaeth rheoli..... | 9 |
| 3 Ansawdd cyfleoedd dysgu | 10 |
| Cynrychiolaeth myfyrwyr..... | 10 |
| Addysgu wedi'i hysbysu gan ymchwil | 10 |
| Adnoddau..... | 11 |
| Cymorth i fyfyrwyr..... | 12 |
| Apeliadau a chwynion..... | 12 |
| Penodi a datblygu staff | 13 |
| 4 Trefniadau cydweithredol | 13 |
| Cyflwyniad..... | 13 |
| Rheoli darpariaeth gydweithredol | 14 |
| Monitro mewn darpariaeth gydweithredol | 14 |
| 5 Gwella ansawdd | 15 |
| 6 Trefniadau i fyfyrwyr ôl-raddedig..... | 16 |
| Amgylchedd a llywodraethu..... | 16 |
| Derbyn, cynefino a chymorth | 16 |
| Goruchwylio..... | 17 |
| 7 Gwybodaeth gyhoeddus | 18 |
| Atodiad A: Ynghylch Prifysgol Bangor..... | 19 |
| Atodiad B: Ymateb gan Brifysgol Bangor | 21 |
| Rhestr termau..... | 22 |

Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Sefydliadol safonol a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) ym Mhrifysgol Bangor ('y Brifysgol'). Mae'r addysg uwch a ddarperir drwy gytundebau partneriaeth gyda sefydliadau eraill (darpariaeth gydweithredol) wedi cael ei adolygu ochr yn ochr â phrif ddarpariaeth addysgol y Brifysgol.

Cafwyd yr adolygiad o 14 i 18 Mai 2012 a chafodd ei weithredu gan dîm o chwe adolygwr, fel a ganlyn:

- Yr Athro Colin Raban
- Mrs Claire Blanchard
- Ms Martina Rohr
- Yr Athro Danny Saunders
- Miss Sarah Ingram (adolygwr sy'n fyfyrwr)
- Mr Tony Platt (ysgrifennydd yr adolygiad).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r addysg uwch (yn cynnwys darpariaeth gydweithredol) a ddarperir gan Brifysgol Bangor a barnu a yw ei safonau a'i hansawdd academaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio. Yn yr adroddiad hwn, mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
 - safonau academaidd trothwy¹
 - ansawdd cyfleoedd dysgu
- yn rhoi sylwadau ar wybodaeth gyhoeddus ac ar y thema (ymchwil ôl-raddedig a gwelliant)
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da.

Gallwch weld crynodeb o'r [canfyddiadau allweddol](#) yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 2. Rhoddwyd [esboniadau o'r canfyddiadau](#) mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 4.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am ASA](#) a'i chenhadaeth.² I gael gwybodaeth gefndir am Brifysgol Bangor gwelwch [Atodiad A: Ynghylch Prifysgol Bangor](#) yn cychwyn ar dudalen 18. Mae tudalen benodol ar y wefan yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud [Adolygiad Sefydliadol o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru](#)³ ac mae ganddi ddolenni at y llawlyfr adolygiad a dogfennau defnyddiol eraill.

¹ I gael esboniad o'r termau gwelwch y [rhestr termau](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

² www.qaa.ac.uk/aboutus/pages/default.aspx

³ www.qaa.ac.uk/institutionreports/types-of-review/pages/adolygiad-sefydliadol-cymru.aspx

Canfyddiadau allweddol

Bu tîm adolygu ASA yn ystyried swm mawr o dystiolaeth yn ymwneud â'r ddarpariaeth addysgol ym Mhrifysgol Bangor, sef gwybodaeth a ddarparwyd o flaen llaw a thystiolaeth a gasglwyd yn ystod ymweliadau'r adolygiad ei hun. Mae'r adolygiad wedi galluogi tîm adolygu ASA i ffurfio dwy feirniadaeth am y Brifysgol.

Beirniadaethau ASA am Brifysgol Bangor

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch ym Mhrifysgol Bangor.

- Gellir teimlo **hyder** yng nghadernid rheolaeth bresennol Prifysgol Bangor a'i rheolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academiaidd ei dyfarniadau.
- Gellir teimlo **hyder** yng nghadernid rheolaeth bresennol Prifysgol Bangor a'i rheolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr.

Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr argymhellion dilynol i Brifysgol Bangor.

Buddiol

Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n **fuddiol** i Brifysgol Bangor:

- adolygu cyfansoddiadau, atebolrwydd a gweithrediad grwpiau a phwyllgorau, ynghyd â natur ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd iddynt a chanddynt, er mwyn sicrhau goruchwyliaeth y Senedd ar yr ystod lawn o ddarpariaeth academiaidd (paragraff 1.3.6)
- adolygu effeithiolrwydd academiaidd digwyddiadau ail-ddilysu lle mae nifer fawr a/neu amrywiaeth mawr o raglenni'n cael eu hystyried (paragraff 2.3.4)
- sicrhau bod yr holl raglenni wedi'u halinio gyda'r meincnodau pwnc perthnasol (paragraff 1.4.2)
- sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyson yn llawlyfrau'r myfyrwyr (paragraff 7.1)
- sicrhau bod yr wybodaeth a roddir i ddarpar fyfyrwyr drwy wefan gyfan y Brifysgol yn gywir ac yn gyfredol (paragraff 7.2).

Manteisiol

Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n **fanteisiol** i Brifysgol Bangor:

- ystyried sut y gall adlewyrchiad pellach o adroddiadau arholwyr allanol ddigwydd ar lefel ysgol neu goleg (paragraff 2.4.3)
- hwyluso'r broses o fabwysiadu ei gofynion am gysondeb mewn arferion asesu (paragraff 2.5.4)
- barhau i ddatblygu a lledaenu meini prawf i ddiffinio ysgolheictod, gan adeiladu ar y llwybrau dyrchafu y cytunwyd arnynt yn ddiweddar ar gyfer staff addysgu (paragraff 3.2.4)
- adolygu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau ysgolion a cholegau i wella ymgysylltiad y myfyrwyr â nhw (paragraff 1.3.8)

- ystyried cyflwyno gwerthusiad systematig o'i ddarpariaeth o gymorth academaidd (paragraff 5.4).

Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y **nodweddion o arfer da** dilynol ym Mhrifysgol Bangor.

- Gwaith Canolfan Dyslecsia Miles, lle mae ymchwil wedi gwella'r ddarpariaeth cymorth ar draws y Brifysgol a thu hwnt (paragraff 3.2.5).
- Y Cynllun Arweinwyr Cyfoed, sy'n rhoi cyflwyniad rhagorol i fywyd y myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor (paragraff 3.4.5).
- Gwaith Canolfan Bedwyr i wella'r ddarpariaeth Gymraeg (paragraff 5.3).

Canfyddiadau manwl am Brifysgol Bangor

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau allweddol yr adolygiad yn fwy manwl. Mae'n rhoi digon o dystiolaeth i gefnogi ac egluro beirniadaethau, datganiadau ac argymhellion y tîm adolygu.

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn rhestr termau byr ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae [rhestr termau](#)⁴ llawnach ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y [dull adolygu](#), ac hefyd ar wefan ASA.⁵

1 Fframwaith Rheoli Academaidd

1.1 Y Senedd, colegau ac ysgolion

1.1.1 Mae gan y Brifysgol 23 o ysgolion academaidd sydd wedi'u grwpio'n chwe choleg, gyda chyfrifoldeb am faterion cyllidebol, strategol a rheoli. Gan yr ysgolion mae'r cyfrifoldeb am gofrestru myfyrwyr, rheoli rhaglenni gradd, ansawdd a safonau academaidd, ac am ddarparu addysgu a dysgu. Ar wahân i ofyniad bod ysgolion yn sefydlu byrddau astudiaethau, nid yw'r Brifysgol yn pennu'r pwyllgorau y dylid eu sefydlu ar lefel ysgol neu goleg.

1.1.2 Mae'r Siarter yn disgrifio'r Senedd fel 'awdurdod academaidd y Brifysgol'. Mae'n 'gyfrifol am waith academaidd [y Brifysgol], mewn addysgu ac ymchwil fel ei gilydd, ac am reoleiddiad a goruchwyliaeth addysg a disgyblaeth ... myfyrwyr' ac mae wedi'i chefnogi gan nifer o is-bwyllgorau. Mae'r cyfrifoldeb am ansawdd a safonau rhaglenni a addysgir ar ysgwyddau byrddau astudiaethau'r ysgolion, ac yn y pen draw gyda'r Senedd, tra bo Pwyllgor Ôl-radd y Senedd yn goruchwyllo darpariaeth y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

1.2 Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol a'i grwpiau tasg

1.2.1 Mae cylch gwaith Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol, sy'n cynnwys yr Is-Ganghellor, Is-Gangellorion, Penaethiaid Coleg a swyddogion uwch eraill y Brifysgol, yn cynnwys cyfrifoldebau am: reolaeth a gweinyddiad cyffredinol y Brifysgol o ddydd i ddydd; ei maint, siâp academaidd a'i strwythur; ac am fonitro perfformiad y Brifysgol ymhob un o'i agweddau. Mae pŵer gan y Pwyllgor Gweithredu hefyd i sefydlu grwpiau tasg 'i helpu gyda, a chynghori am, reoli materion y Brifysgol'.

1.2.2 Ar hyn o bryd mae 24 o grwpiau tasg, ac mae dau ohonynt – y Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu a'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu – yn goruchwyllo'r rheolaeth ar ansawdd a safonau rhaglenni a addysgir. Cawsent eu disgrifio gan staff fel grwpiau sy'n sefyll rhwng y Pwyllgor Gweithredu a'r Senedd ar un llaw, a'r ysgolion a cholegau ar y llall. Yna mae'r Gofrestrfa Academaidd yn hwyluso llif yr wybodaeth rhwng ysgolion neu golegau a'r grwpiau tasg. Er nad yw'r grwpiau tasg yn ffurfiol atebol i'r Senedd, hysbyswyd y tîm bod aelodau o'r Pwyllgor Gweithredu'n cadeirio cyfarfodydd grwpiau tasg. Maent yn gyfrifol am ganfod y materion sy'n gofyn barn academaidd ac a fyddai felly'n cael eu cyfeirio at y Senedd neu at un o'r is-bwyllgorau.

⁴ www.gaa.ac.uk/aboutus/rhestr/pages/default.aspx

⁵ Gwelwch nodyn 3.

1.3 Atebolrwydd ysgolion a cholegau

1.3.1 Mae penaethiaid coleg yn rheolwyr llinell i'r penaethiaid ysgol. Dywedwyd wrth y tîm bod y colegau'n ymdrin â materion cyllidebol, strategol a rheoli yn unig, ond roedd hi'n amlwg bod rhai wedi sefydlu eu Pwyllgorau Addysgu a Dysgu eu hunain ac wedi penodi staff uwch sydd â chyfrifoldebau yn y maes hwn. Nododd y tîm bod modd cyfiawnhau'r datblygiad yma gan gyfrifoldeb pennaeth coleg am weithredu 'polisi'au a strategaethau'r Brifysgol', ac mae'n gyson gyda chynrychiolaeth bob coleg ar y Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu a'r Pwyllgor Gweithredu. Dywedodd y staff wrth y tîm bod y colegau'n chwarae rôl werthfawr o ran sicrhau cysondeb rhwng eu hysgolion cyfansoddol, ac o ran hyrwyddo cydweithrediad rhwng ysgolion.

1.3.2 O dan drefniadau cyfredol y Brifysgol, goruchwylir gweithgareddau ysgolion gan y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu a'r Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu. Mae atebolrwydd ysgolion i'r grwpiau tasg hyn wedi'i sicrhau gan weithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer adolygiad blynyddol ac archwiliad ansawdd mewnol ac, wrth ystyried yr adroddiadau a gynhyrchir gan y gweithdrefnau hyn, mae aelodau'r Pwyllgor Gweithredu'n penderfynu a oes materion sydd angen barn academiaidd ac y dylid felly eu cyfeirio at y Senedd.

1.3.3 Roedd rhai o'r dogfennau a ddarparwyd gan y Brifysgol yn mynegi pryderon am faint yr amrywiad rhwng yr arferion a'r gweithdrefnau y mae ysgolion wedi'u mabwysiadu. Rhoddodd cyflwyniad y myfyrwyr sylwadau beirniadol am y gwahaniaethau rhwng yr ysgolion mewn perthynas â materion megis darparu tiwtoriaid personol, marcio dienw, gweithredu polisi marcio pendant, a threfniadau i ddelio ag achosion o lôn-ladrad posibl. Er y dywedir bod byrddau astudiaethau'r ysgolion yn atebol i'r Senedd, does dim mecanwaith ffurfiol i sicrhau eu hatebolrwydd neu gysondeb ar draws colegau ac ysgolion.

1.3.4 Roedd y tîm o'r farn bod cofnodion cyfarfodydd y bwrdd yn brin o'r lefel o fanylder mewn rhai achosion a fyddai'n rhoi'r sicrwydd i'r Senedd neu unrhyw bwyllgor neu grŵp arall sy'n perthyn i'r Brifysgol bod yr ysgolion yn gweithredu eu cyfrifoldebau mewn ffordd briodol. Roedd y tîm o'r farn hefyd y gallai'r nifer uchel a'r amrywiaeth mawr o raglenni y mae rhai byrddau yn gyfrifol amdanynt gyfyngu ar eu gallu i arfer goruchwyliaeth effeithiol ar ddarpariaeth academiaidd ysgol.

1.3.5 Er bod y Pwyllgor Ôl-radd yn cymryd y cyfrifoldeb cyflawn am ddarpariaeth ymchwil ôl-raddedig y Brifysgol, roedd y tîm o'r farn bod y Senedd a'i phwyllgorau yn ymwneud yn llai uniongyrchol â sicrhau ansawdd a safonau rhaglenni a addysgir. Er bod y Senedd wedi'i 'hail-awdurdodi' yn ddiweddar, hysbyswyd y tîm bod lle i ddatblygu'r rôl yma ymhellach. Gallai hyn gynnwys dynodi rhai grwpiau tasg yn bwyllgorau i'r Senedd, a gallai hynny felly wella'r llif gwybodaeth a'r broses o wneud penderfyniadau rhwng gwahanol lefelau o fewn y strwythur sefydliadol.

1.3.6 Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol adolygu cyfansoddiadau, atebolrwydd a gweithrediad grwpiau a phwyllgorau, ynghyd â natur ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd iddynt a chanddynt, er mwyn sicrhau goruchwyliaeth y Senedd ar yr ystod lawn o ddarpariaeth academiaidd. Efallai yr hoffai'r Brifysgol ystyried a ellid datblygu rôl colegau hefyd i gryfhau atebolrwydd yr ysgolion i'r Senedd.

1.3.7 Roedd adroddiad yr Adolygiad Sefydliadol blaenorol wedi argymhell bod y Brifysgol yn 'monitro gweithrediad y grwpiau tasg i gadarnhau nad yw'r system benodi ar sail arbenigedd penodol yn cyfyngu ar gyfranogaeth y myfyrwyr a'r staff ym mhrosesau ymgynghorol y sefydliad'. Ymatebodd y Brifysgol i'r argymhelliad yma drwy benderfynu y dylid cael cynrychiolaeth 'etholaeth' ar rai grwpiau tasg ac ar y Pwyllgor Gweithredu. Nododd y tîm bod cynrychiolwyr 'etholaeth' grŵp tasg yn cael eu penodi drwy rinwedd eu swydd neu eu

bod yn cael eu dewis ar sail eu harbenigedd, a chadarnhaodd y staff uwch nad oes darpariaeth ffurfiol ar gyfer ethol aelodau o staff i'r Senedd a'i phwyllgorau. Sylwodd y tîm hefyd bod swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr yn cynrychioli myfyrwyr ar bwyllgorau a grwpiau'r Brifysgol; ond hysbyswyd y tîm gan fyfyrwyr nad yw'r ysgolion i gyd yn cwrdd â gofynion y Brifysgol mewn ffordd sy'n sicrhau bod myfyrwyr wedi'u cynrychioli'n ddigonol ar eu byrddau astudiaethau.

1.3.8 Daeth y tîm i'r casgliad y byddai'n **fanteisiol** i'r Brifysgol adolygu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau ysgolion a cholegau i wella ymgysylltiad y myfyrwyr â nhw.

1.4 Seilwaith Academaidd

1.4.1 Gallai'r tîm adolygu gadarnhau bod y Brifysgol yn gyffredinol yn gwneud defnydd priodol o God Ansawdd Addysg Uwch y DU (Cod Ansawdd) a phwyntiau cyfeirio allanol eraill, yn arbennig y rheiny gan gyrrff proffesiynol. Mae safonau academaidd wedi'u diffinio fel rhan o'r broses ddatblygu rhaglenni, ac mae angen i banelau dilysu ac ail ddilysu gadarnhau bod adrannau perthnasol o'r Cod Ansawdd wedi derbyn ystyriaeth ddigonol. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu ei chodau ymarfer ei hun, sy'n cyfateb â'r *Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch (Cod Ymarfer)* a gyhoeddwyd o'r blaen gan ASA, ac efallai y bydd eisiau ei sicrhau ei hun a fydd y broses yma'n parhau i ddarparu ffordd effeithiol o gadarnhau aliniad gydag adrannau newydd y Cod Ansawdd ai peidio.

1.4.2 Mae manylebau rhaglenni'n dilyn yn agos at ganllawiau ASA; cânt eu cyflwyno'n rheolaidd wrth gymeradwyo ac adolygu rhaglenni, ac mae'r holl fanylebau rhaglenni'n cyfeirio at ystyriaeth o'r datganiadau meincnod pwnc. Fodd bynnag, nododd y tîm adolygu esiampl o raglen gradd meistr nad oedd wedi'i halinio gyda'r datganiad meincnod perthnasol, ac felly mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol sicrhau bod yr holl raglenni wedi'u halinio gyda'r meincnodau pwnc perthnasol.

1.5 Casgliad

1.5.1 Canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn gweithredu gydag ystyriaeth briodol i'r Cod Ansawdd, yn arbennig yn ei hagwedd at gymeradwyo, monitro ac adolygu, ac felly daeth i'r casgliad bod modd teimlo **hyder** yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei ddyfarniadau. Mae'r tîm adolygu'n tynnu sylw'r Brifysgol at baragraffau 1.3.6, 1.3.8 a 1.4.2.

2 Safonau academaidd

2.1 Cymeradwyo rhaglenni, modiwlau a chyrсияu

2.1.1 Mae'r fframwaith sicrhau ansawdd wedi'i amlinellu yng Nghod Ymarfer y Brifysgol ar gyfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni, a ddatblygwyd gan gyfeirio'n uniongyrchol at y *Cod Ymarfer*. Mae'r gwaith o gymeradwyo modiwlau wedi'i wneud yn gyffredinol drwy Banel Cymeradwyo Modiwlau blynyddol, sydd wedi'i drefnu gan y Gofrestrfa Academaidd a'i gadarnhau wedi hynny drwy'r digwyddiad cymeradwyo rhaglenni priodol lle mae aseswr allanol yn bresennol. Mae Pwyllgor Craffu Cyrсияu Newydd blynyddol yn craffu ar yr amlinellau rhaglenni cyn eu hargymell i'r Pwyllgor Gweithredu i'w cymeradwyo ar gyfer dilysiad. Mae'r prosesau canolog hyn yn sicrhau ansawdd dogfennaeth hyd at y dilysiad, gan roi ystyriaeth i reoliadau'r Brifysgol ac argaeledd adnoddau.

2.2 Adolygiad blynyddol

2.2.1 Gweithredir trefniadau ar gyfer adolygu modiwlau a rhaglenni'n flynyddol drwy ffurflenni adrodd. Er bod y cyfrifoldeb am fonitro effeithiolrwydd modiwlau'n parhau gydag ysgolion/ colegau, mae effeithiolrwydd rhaglenni'n cael ei fonitro drwy gyflwyno crynodebau pro fforma cyflawn (a adnabyddir fel ffurflenni QA1) i'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu, sydd hefyd yn derbyn adroddiad trosolwg blynyddol a gynhyrchir gan y Gofrestrfa Academaidd. Mae'r adroddiadau hyn ar gyfer y tair blynedd diwethaf yn dangos lefelau amrywiol o ymgysylltiad gyda phrosesau adolygu blynyddol ar lefel cwrs, er eu bod yn haeddu clod am eu hadnabyddiaeth graff o ddiffyg cydymffurfiad â gofynion cod ymarfer y Brifysgol.

2.2.2 Nododd y tîm adolygu lefelau isel o ymgysylltiad beirniadol gyda gweithgareddau adolygu blynyddol mewn nifer o raglenni a modiwlau ar lefel ysgol neu goleg. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod bod angen adolygu'r ffurflenni, nad ydynt ar hyn o bryd yn annog yn ddigonol ddatblygiad sylwadau gwerthusol a hunan-feirniadol. Nododd y tîm adolygu hefyd bod amrywiaeth yn y ffordd yr ystyrir neu y dadleuir darpariaeth y modiwlau a'r rhaglenni drwy strwythur pwyllgorau cyfan ei hysgolion a'i cholegau. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod nad yw'r ffurflen monitro flynyddol yn ystyried materion sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau achredu gan gyrff allanol ac felly nid yw'r materion hyn yn cael sylw yn y Cynlluniau Datblygu Blynyddol. Efallai yr hoffai'r Brifysgol ystyried a yw ei gweithdrefnau ar gyfer adolygu modiwlau a chyrсияu yn flynyddol yn cynhyrchu digon o wybodaeth a gwerthusiad beirniadol yn rheolaidd i alluogi i bob ysgol/coleg gyflawni eu cyfrifoldebau am sicrhau ansawdd mewn modd prydlon ac adlewyrchol.

2.3 Adolygiad cyfnodol

2.3.1 Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn gwneud Archwiliadau Ansawdd Mewnol a digwyddiadau ail-ddilysu ar gyfer rhaglenni israddedig a rhaglenni ôl-raddedig a addysgir bob pum mlynedd. Daw'r broses Archwiliadau Ansawdd Mewnol gyfnod o flwyddyn cyn yr ail-ddilysiad ac mae'n haeddu clod am ei ffocws ar brofiad y myfyrwyr a'i hystyriaeth o faterion megis adnoddau dysgu, datblygiadau yn yr ysgol, gwerthusiad gan fyfyrwyr, presenoldeb a'r broses gynefino, data am recriwtio a chyflawniad, achredu gan gyrff proffesiynol, adnoddau staffio a datblygiad staff. Mae'r Archwiliadau Ansawdd Mewnol yn drwyadl yn eu gwaith o ganfod diffyg cydymffurfiad â systemau rheoliadol y Brifysgol, diffyg ymgysylltiad â'r broses fonitro flynyddol ac â phwyllgorau myfyrwyr-staff, a gwybodaeth wallus i fyfyrwyr yn llawlyfrau'r modiwlau a'r cyrsiau. Roedd y tîm adolygu o'r farn y dylid monitro'r materion yn ymwneud ag amrywioldeb mecanweithiau sicrhau ansawdd sy'n gweithredu ar lefel yr ysgol ac ar lefel pwyllgor y coleg yn amlach na'r cyfnod presennol o bum mlynedd. Nododd y tîm bod y Brifysgol wrthi ar hyn o bryd yn adolygu effeithiolrwydd y broses Archwiliadau Ansawdd Mewnol ac yn ymgysylltu â rhai cynlluniau peilot sy'n cyfuno'r ddau archwiliad. Mae'n bwriadu cyflwyno adolygiad canol tymor Archwiliadau Ansawdd Mewnol i helpu i fonitro cynlluniau gweithredu ac i sicrhau cydymffurfiad.

2.3.2 Er na chanfu'r tîm adolygu unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw rhaglenni, yn gyffredinol, yn derbyn lefel briodol o graffu yn y digwyddiadau ail-ddilysu, efallai y dymunai'r Brifysgol sicrhau y rhoddir ystyriaeth gyfartal i bob rhaglen lle ystyrir nifer fawr ac amrywiaeth mawr o bynciau. Nododd y tîm archwilio adroddiad digwyddiad cymeradwyo ac ail-ddilysu cyrsiau lle cyflwynwyd cyrsiau newydd, nifer fawr ac amrywiaeth mawr o'r cyrsiau cyfredol, a nifer fawr o fodiwlau newydd a chyfredol i'w dilysu a'u hail-ddilysu gyda dim ond un aseswr allanol yn bresennol. Efallai yr hoffai'r Brifysgol ystyried amlygrwydd y prosesau Archwiliadau Ansawdd Mewnol a'r prosesau ail-ddilysu i osgoi agendâu sy'n gorgyffwrdd.

2.3.3 Yn yr un modd, efallai y byddai'r Brifysgol eisiau gwella ei chyfleoedd i glywed llais

y myfyrwyr drwy sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar banelau ail-ddilysu a thrwy wahodd myfyrwyr i drafod darpariaeth y cwricwlwm, gan ddilyn esiampl yr Archwiliadau Ansawdd Mewnol. Fel arall, gallai'r tîm adolygu gadarnhau bod y Brifysgol, yn gyffredinol, yn gwneud defnydd priodol a boddhaol o gyfranogaeth allanol mewn dilysu rhaglenni, Archwiliadau Ansawdd Mewnol ac ail-ddilysiadau, ond ni allai ffurfio barn o'r ddogfennaeth dilysiad ac adolygiad a gyflwynwyd am y ffordd mae'r Brifysgol yn ymgynghori â diwydiant a chyflogwyr ar gyfer dilysu rhaglenni.

2.3.4 Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol adolygu effeithiolrwydd academaidd digwyddiadau ail-ddilysu lle mae nifer fawr a/neu amrywiaeth mawr o raglenni'n cael eu hystyried.

2.4 Arholi allanol

2.4.1 Mae gan y Brifysgol godau ymarfer cynhwysfawr ar gyfer arholiadau allanol y ddarpariaeth israddedig a'r ddarpariaeth ôl-raddedig a addysgir yn ogystal â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae'r codau ymarfer hyn yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer enwebu, penodi a monitro arholwyr allanol, gan gynnwys gweithdrefnau manwl i wneud asesiad allanol o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cadarnhaodd y tîm adolygu bod gweithdrefnau a systemau ffurfiol yn eu lle ar gyfer rheoli trefniadau arholi allanol, gan gynnwys ystyried adroddiadau arholwyr allanol drwy'r cynlluniau adolygu a datblygu rhaglenni blynyddol, gyda phenaethiaid ysgol yn darparu adborth ysgrifenedig i bob arholwr allanol. Mae'r sefydliad yn cefnogi'r egwyddor o gyfathrebu i fyfyrwyr brif elfennau adroddiadau arholwyr allanol, ond mae'n derbyn nad yw hyn wedi bod yn arfer cyffredin bob amser, ac mae menter newydd yn cael ei chynllunio mewn ysgolion.

2.4.2 Sicrheir goruchwyliaeth flynyddol drwy i'r Is-Ganghellor dderbyn yr holl adroddiadau'n uniongyrchol, yn ogystal â chrynodeb un dudalen o adroddiadau gan y Gofrestrfa Academaidd. Mae'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu'n ystyried dadansoddiad mwy manwl, yn arwain at gynlluniau gweithredu i ysgolion yn ogystal â chrynodeb cyffredinol ar gyfer y Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu. Mae'r dadansoddiad tymor hirach o faterion a themâu mawr sy'n dod i'r amlwg o sylwadau gan arholwyr allanol a chynllunio camau gweithredu dilynol ar lefel yr ysgol a'r rhaglen wedi'u cyflawni drwy'r broses Archwiliadau Ansawdd Mewnol.

2.4.3 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y broses ar gyfer adolygu a dadansoddi arsylwadau gan arholwyr allanol ar lefel grŵp tasg yn hanfodol a manwl, gyda gweithdrefnau a systemau clir ac atebol yn eu lle ar gyfer cynllunio camau gweithredu priodol mewn rhaglenni academaidd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod adlewyrchiad neu werthusiad systematig anghyson gan ysgolion neu golegau o adborth gan arholwyr allanol, ac mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fanteisiol** i'r Brifysgol ystyried sut y gall adlewyrchiad pellach o adroddiadau arholwyr allanol ddigwydd ar lefel ysgol neu goleg.

2.5 Asesu

2.5.1 Mae Senedd y Brifysgol yn diffinio ac yn monitro polisïau a rheoliadau ar gyfer asesu myfyrwyr, yn cynnwys egwyddorion asesu, gwybodaeth, adborth am waith cwrs, presenoldeb, arholiadau, ailasesu, cynnydd, a swyddogaeth y Bwrdd Astudiaethau fel Bwrdd Arholwyr. Mae'r rhain wedi'u cefnogi gan brosiectau gwella parhaus ar gyfer asesiad ac adborth.

2.5.2 Nododd y tîm adolygu bod gan y Brifysgol weithdrefnau lefel uwch yn eu lle i wneud asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys y diffiniad clir o gyfrifoldebau myfyrwyr a'r defnydd a wneir o arholwyr allanol. Mae'r Brifysgol hefyd yn datblygu canllawiau ar gyfer y

sector addysg uwch ynglŷn â gwneud defnydd priodol o weithdrefnau cyfieithu ac arbenigedd iaith Gymraeg. Mae gan yr agwedd ragweithiol yma tuag at weithredoedd cyfrwng Cymraeg lawer o botensial ar gyfer arfer da yn y dyfodol, drwy ymgysylltiad y Brifysgol â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n datblygu.

2.5.3 Nododd y tîm adolygu hefyd bod y Brifysgol, yn enwedig drwy ei dadansoddiad o adborth gan arholwyr allanol ac archwiliadau ansawdd mewnol cyfnodol, yn ymwybodol o anghysonderau yn y ffordd y defnyddir gweithdrefnau asesu ar draws ysgolion. Ymysg yr esiamplau o weithredu llwyddiannus i ddatrys anawsterau mae darparu meini prawf asesu, defnyddio canlyniadau dysgu, a marcio dwbl.

2.5.4 Nododd y tîm adolygu, fodd bynnag, eu bod wedi gweld cynnydd arafach gydag agweddau eraill o asesiad, yn cynnwys cyflwyno marcio categorïaidd, dychwelyd gwaith cwrs yn brydlon, a rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr gael gafael ar wybodaeth am sgriptiau arholiadau wedi'u hasesu. Mae cyflwyniad y myfyrwyr, rhai Archwiliadau Ansawdd Mewnol, adolygiadau o adroddiadau arholwyr allanol, a datganiadau adolygu polisi gan y Brifysgol wedi tanlinellu'r ffaith fod angen gwella cysondeb arferion wrth ddefnyddio asesu dienw, yn ogystal â phwysigrwydd osgoi dryswch wrth gyfathrebu polisiâu ar arferion annheg i fyfyrwyr. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fanteisiol** i'r Brifysgol hwyluso'r broses o fabwysiadu ei gofynion am gysondeb mewn arferion asesu.

2.5.5 Argymhellodd adroddiad yr Adolygiad Sefydliadol diwethaf bod y Brifysgol yn adolygu'r 'agwedd tuag at arholiadau ar lafar wrth asesu er mwyn sefydlu a sicrhau cysondeb yn y meini prawf ar gyfer defnyddio arholiadau o'r fath'. Mae addasiadau priodol wedi'u gwneud i godau ymarfer, rheoliadau a chanllawiau'r Brifysgol, ac mae'r tîm adolygu o'r farn bod y rhain erbyn hyn yn darparu arweiniad clir ar ddefnyddio arholiadau ar lafar.

2.6 Gwybodaeth rheoli

2.6.1 Gallai'r tîm adolygu gadarnhau bod y Brifysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth rheoli i hysbysu ei phrosesau sicrhau ansawdd, cynllunio a darparu adnoddau ac i hwyluso dadansoddiad systematig a chynhwysfawr o gadwraeth a chyflawniad. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod yr angen am ddata mwy ystyrion am gadwraeth blwyddyn ar ôl blwyddyn sy'n gwahaniaethu rhwng myfyrwyr sy'n ymadael yn fuan a'r rheiny nad ydynt yn llwyddo i symud ymlaen.

2.6.2 Mae'r Brifysgol yn defnyddio erfyn ystadegol - ARQUE (Adroddiadau Asesu ar Ansawdd Arholiadau Prifysgol) - sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am berfformiad myfyrwyr ymhob modiwl. Ystyrir adroddiadau cryno yn y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu, lle anfonir yr adroddiadau i golegau. Mae hefyd ofyniad i ddadansoddi'r ystadegau yma wrth fonitro modiwlau a chysiau'n flynyddol. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth ar draws y rhaglenni yn y graddau y defnyddiwyd y data i ysgogi dadansoddiad ac adlewyrchiad ac roedd ei ddefnydd yn aml iawn wedi'i gyfyngu i grynodedau disgrifiadol.

2.7 Casgliad

2.7.1 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo rhaglenni, monitro'n flynyddol ac adolygiad cyfnodol yn gyffredinol gadarn ac roedd yn fodlon bod y Brifysgol yn cyflawni gofynion cyrff allanol, yn ymateb yn briodol, a bod yr oruchwyliaeth ganolog o'r trefniadau'n sicr.

2.7.2 Yng nghyd-destun y dystiolaeth a ystyriwyd, canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn gweithredu gydag ystyriaeth briodol i'r Cod Ansawdd, a daeth i'r casgliad bod modd teimlo **hyder** yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar

safonau academaidd ei ddyfarniadau. Ond, mae'r tîm yn tynnu sylw'r Brifysgol at yr argymhellion a gafwyd ym mharagraffau 2.3.2, 2.4.3 a 2.5.4.

3 Ansawdd cyfleoedd dysgu

3.1 Cynrychiolaeth myfyrwyr

3.1.1 Mae cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel sefydliadol wedi'i gyfyngu fel arfer i swyddog Undeb y Myfyrwyr ar rai o'r pwyllgorau a'r grwpiau tasg, ond lle maen nhw yn mynychu, mae'n ymddangos bod ganddynt rôl hanfodol. Er bod y Brifysgol yn elwa'n enfawr o'i pherthynas agos ag Undeb y Myfyrwyr, mae'n ymddangos bod rhesymeg gyfyngedig am y diffyg cynrychiolaeth ar rai grwpiau tasg a phwyllgorau ac mae lefelau amrywiol o ymgysylltiad â chynrychiolaeth myfyrwyr ar draws y sefydliad.

3.1.2 Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cynrychiolaeth Myfyrwyr, sydd newydd ei sefydlu, yn disgrifio system gadarn i sicrhau cynrychiolaeth ar gyrsiau a rheolau ar gyfer cynrychiolaeth myfyrwyr ar fyrddau astudiaethau. Fodd bynnag, nid yw staff mewn ysgolion bob amser yn rhoi digon o bwyslais ar bwysigrwydd cael cynrychiolaeth ar bwyllgorau ysgol eraill neu am sicrhau bod amseriad cyfarfodydd yn caniatáu ar gyfer presenoldeb myfyrwyr. Er bod rhai ysgolion yn pwysleisio rôl cynrychiolwyr myfyrwyr mewn bwydo'n ôl ymatebion staff i faterion neu welliannau mewn ysgol, mae diffyg hyfforddiant penodol i ysgolion a gall hyn arwain at negeseuon anghyson. Mae'r Brifysgol yn dibynnu hefyd ar Undeb y Myfyrwyr i gyfathrebu newidiadau yn y sefydliad i fyfyrwyr mewn nifer o feysydd, ac mae'n ymddangos bod diffyg cyfathrebiad gan y Brifysgol gyda myfyrwyr ar draws y Brifysgol.

3.1.3 Er bod myfyrwyr yn mynychu Archwiliadau Ansawdd Mewnol, ac yn gyffredinol cafodd yr argymhellion sy'n adlewyrchu barn myfyrwyr eu hystyried gan yr ysgol berthnasol, clywodd y tîm mai dim ond i rai digwyddiadau ail-ddilysu y cafodd y myfyrwyr eu gwahodd - yn gyffredinol y rheiny sy'n cynnwys cyrff proffesiynol a statudol. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fanteisiol** i'r Brifysgol adolygu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd ail-ddilysu'r ysgolion a'r colegau i wella ymgysylltiad y myfyrwyr â nhw (gwelwch baragraff 1.3.8).

3.1.4 Canfu'r tîm bod y trefniadau ar gyfer casglu adborth gan fyfyrwyr nad ydynt yn gynrychiolwyr yn weddol gyson drwy ddefnyddio ffurflenni gwerthuso modiwl. Cymerir barn y myfyrwyr o ddifrif a gwneir newidiadau o ganlyniad i'w hadborth. Ni roddir unrhyw hyfforddiant ffurfiol, er bod staff mewn nifer o ysgolion yn ceisio bod yn hawdd mynd atynt ac mae myfyrwyr yn bositif am ysbryd agored y staff. Fodd bynnag, mae adborth cyfyngedig i fyfyrwyr weithiau i'w gwneud yn ymwybodol o'r newidiadau sydd wedi cael eu cychwyn, sydd yn aml yn ddibynnol ar basio gwybodaeth o un myfyriwr i'r llall. Mae angen gweithredu i hwyluso cyflwyniad mesurau mewn ymateb i adborth, er bod hyn yn digwydd i raddau cyfyngedig mewn rhai ysgolion yn barod.

3.1.5 Mae rhai ysgolion wedi sefydlu cysylltiadau cryf gyda chyflogwyr drwy Fyrddau Cynghori Cyflogwyr, a chynghorir pobl eraill i'w creu nhw. Clywodd y tîm mai yn anaml iawn y defnyddir adborth graddedigion, er bod grwpiau cyn-fyfyrwyr yn tyfu'n gryfach ac mae staff yn clywed hanesion am raddedigion yn rhoi gwybodaeth bositif i ddarparu fyfyrwyr y maent yn dod i gysylltiad â nhw.

3.2 Addysgu wedi'i hysbysu gan ymchwil

3.2.1 Er nad yw addysgu sydd wedi'i hysbysu gan ymchwil wedi'i nodi'n benodol fel blaenoriaeth yng Nghynllun Strategol y Brifysgol, cadarnhaodd y tîm adolygu bod y Brifysgol yn dilyn agenda o'r fath yn frwd er mwyn darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i fyfyrwyr.

Mae hyn yn cynnwys yr Academi Cymrodyr Dysgu, llwybrau gyrfaol i bobl academaidd ar sail darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i fyfyrwyr, a chyfres o gynadleddau rhanbarthol yr Academi Addysg Uwch (AAU) yn ymestyn i bartneriaid cydweithredol. Mae strategaeth ar gyfer datblygu addysgu sydd wedi'i hysbysu gan ymchwil, gyda thargedau ymgysylltu ymchwil a datblygiad staff wedi'u rhannu rhwng Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth, yn atgyfnerthu'r egwyddor yma. Cydnabu'r tîm adolygu gysylltu eglur y diwylliant ymchwil gydag addysgu drwy thema amlwg y cysylltiadau ymchwil/addysgu yn rhaglen Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Uwch y Brifysgol.

3.2.2 Nid oedd tystiolaeth a ddarparwyd gan fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yn dangos unrhyw gydnabyddiaeth fanwl ac eglur o'r agenda addysgu sydd wedi'i hysbysu gan ymchwil. Nododd y tîm adolygu, fodd bynnag, bod ei arholwyr allanol yn rhoi sylwadau aml a phositif am berfformiad o safon uchel gan fyfyrwyr mewn traethodau a gwaith prosiect sy'n gysylltiedig ag ymchwil.

3.2.3 Mae'r Brifysgol wedi cynhyrchu cynnyrch sylweddol sydd wedi'i adolygu gan gyfoedion ar gyfer addysgu sydd wedi'i hysbysu gan ymchwil drwy gyhoeddi nifer o erthyglau a phapurau sy'n archwilio'r cysylltiadau rhwng addysgu ac ymchwil mewn amrywiaeth eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys trafodaeth eglur o'r cysylltiadau hyn yn ôl diffiniad AAU ohonynt. Fodd bynnag, does dim ystorfa ganolog ar gyfer yr holl gyhoeddiadau perthnasol gan ysgolion a cholegau.

3.2.4 Does dim diffiniad gweithredol drwy'r sefydliad cyfan o ysgolheictod pedagogaid fel gweithgaredd allweddol yn ymwneud ag ymchwil ac addysgu. O ganlyniad, mae'r ffiniau rhwng ymchwil ac ysgolheictod yn gymylog mewn cyfnod pan fo'r Brifysgol yn hybu integreiddio ymchwil, ysgolheictod ac addysgu fel rhan allweddol o'i chenhadaeth. Felly mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fanteisiol** annog y Brifysgol i barhau i ddatblygu a lledaenu meini prawf i ddiffinio ysgolheictod, gan adeiladu ar y llwybrau dyrchafu y cytunwyd arnynt yn ddiweddar ar gyfer staff addysgu.

3.2.5 Nododd y tîm adolygu bod integreiddio parhaus y gwaith ymchwil gydag ymarfer addysgu a darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel wedi'i sicrhau gan Ganolfan Dyslecsia Miles o fewn yr Ysgol Seicoleg. Mae'r Ganolfan hon yn darparu cymorth i holl fyfyrwyr y Brifysgol sydd â dyslecsia, gan hefyd ymgysylltu â chefnogaeth i'r proffesiynau addysgu a dilyn agenda ymchwil rhyngwladol. Felly roedd gwaith arloesol Canolfan Dyslecsia Miles wedi'i nodi gan y tîm adolygu fel **nodwedd o arfer da**.

3.3 Adnoddau

3.3.1 Gallai'r tîm ddod i'r casgliad bod trosolwg sefydliadol digonol o adnoddau, gan gynnwys y llyfrgell, archifau, cyfleusterau a gwasanaethau cyfrifiaduro, cyfryngau a reprograffeg. Trafodir y trefniadau ar gyfer gofynion adnoddau newydd yn flynyddol gan y Pwyllgor Craffu Cyrsiau Newydd. Dywedodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu bod adnoddau digonol ar gyfer eu rhaglenni astudio. Er bod y myfyrwyr yng Ngholeg Menai'n gallu cael gafael ar adnoddau Prifysgol Bangor, ni all y myfyrwyr yng Ngholeg Llandrillo wneud hynny ar hyn o bryd; ond roedd y tîm yn deall bod cynlluniau i alluogi mynediad o ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf.

3.3.2 Clywodd y tîm adolygu bod adnoddau llyfrgell wedi'u dirprwyo o golegau i ysgolion. Mae Grŵp Tasg Llyfrgell ac Archifau'r Brifysgol yn gwneud adolygiad o'r ddarpariaeth llyfrgell gyda'r nod o sicrhau bod gwasanaeth mwy cyfartal wedi'i ddarparu i fyfyrwyr drwy gydol eu rhaglenni astudio. Nododd y tîm bod darpariaeth TG yn sgorio'n gyson dda yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol.

3.4 Cymorth i fyfyrwyr

3.4.1 Mae'r Brifysgol wedi datblygu Cod Ymarfer cynhwysfawr ar gyfer Cefnogaeth Fugeiliol, ac edrychai'n debyg bod y staff academaidd a'r staff cymorth yn deall hwn yn dda. Mae gofyn i fyfyrwyr israddedig gael tiwtor personol. Fodd bynnag, er bod mecanweithiau wrth gefn i fyfyrwyr sy'n methu cysylltu â'u tiwtoriaid personol, mae'n rhaid i'r myfyrwyr eu hunain gychwyn y rhain, a gall hyn arwain at sefyllfa lle mae myfyrwyr yn gweld eu tiwtoriaid personol yn llai aml neu ddim o gwbl. Does dim amodiad penodol o natur neu ansawdd y gofal bugeiliol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a myfyrwyr ymchwil. Gallai myfyrwyr ar leoliad gael gafael ar diwtoriaid personol a gall siaradwyr Cymraeg ddewis tiwtor personol Cymraeg ei iaith. Mae tiwtor cyswilt penodol y Brifysgol yn darparu cymorth academaidd ychwanegol i fyfyrwyr ar ddarpariaeth gydweithredol.

3.4.2 Dibynnir i raddau mawr ar Undeb y Myfyrwyr i gyfathrebu gwelliannau'r Brifysgol. Mae un datblygiad allweddol - Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr - yn cael ei gyfathrebu i fyfyrwyr drwy boster Undeb y Myfyrwyr yn unig. Mae'r mater yma'n debygol o gael ei drin gyda datblygiad y 'porth 360' ar-lein, er bod y gofynion amser ar gyfer cwblhau'r prosiect yma'n aneglur. Mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth yn nodi meysydd i'w gwella ar gyfer y tair blynedd nesaf, a phan fydd wedi'i gwblhau gellir disgwyl iddo gynnig swm uwch a chyson o gymorth a allai arwain at arfer da yn y sector.

3.4.3 Ychydig iawn o gydnabyddiaeth a roddir i Siarter y Myfyrwyr er mai dyma'r ddogfen profiad y myfyrwyr ganolog mewn llawer o brifysgolion yng Nghymru. Mae'n cyfuno cynnwys o nifer o ddogfennau eraill ac mae'n rhywbeth fydd ar gael i fyfyrwyr, er ar hyn o bryd mae'n ymddangos nad oes digon o gyfathrebiad ac ymwybyddiaeth o'r Siarter ymysg y myfyrwyr a'r staff.

3.4.4 Yn gyffredinol, mae gwasanaethau cefnogi myfyrwyr canolog wedi'u disgrifio'n bositif gan fyfyrwyr, gyda chyfeiriad arbennig at Ganolfan Dyslecsia Miles, a ddisgrifir fel canolfan sy'n darparu 'gwasanaeth rhagorol' (gwelwch baragraff 3.2.5). Mae'r gwasanaeth yma, ynghyd â gwasanaeth y Ganolfan Access i fyfyrwyr anabl, wedi'i hysbysebu'n drwm yn ystod diwrnodau agored ac mae'n ymddangos mai dyma un o'r rhesymau y mae myfyrwyr yn dewis mynd i'r sefydliad. Roedd myfyrwyr oedd yn dilyn rhaglenni drwy ddysgu o bell yn cadarnhau eu boddhad gyda chymorth ac adnoddau.

3.4.5 Mae Cynllun Arweinwyr Cyfoed y Brifysgol yn rhoi cyflwyniad rhagorol i fywyd y myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor, a chaiff ei ddefnyddio'n gyson. Mae'r arweiniad, sy'n ymwneud â bywyd myfyrwyr, y Brifysgol a'r dref, yn cychwyn ar gyfer y mwyafrif o fyfyrwyr cyn iddynt gyrraedd Bangor. Mae hyn yn cynnwys defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol, a gwelir bod hyn yn cael effaith arwyddocaol ar y broses o ymgartrefu, gyda myfyrwyr yn gwneud ffrindiau ac yn cynnal y perthnasau yma cyhyd ag y bo'n angenrheidiol. Mae'r Cynllun wedi'i ehangu i gynnwys myfyrwyr ôl-raddedig a rhyngwladol, gyda myfyrwyr rhyngwladol yn defnyddio'r ffôn neu e-bost i gael ateb i'w cwestiynau cyn iddynt gyrraedd. Darperir hyfforddiant i arweinwyr cyfoed, ac mae gwerthusiadau blynyddol yn nodi cynnydd yn y nifer o arweinwyr cyfoed a gwelliant yn y gwasanaeth maent yn ei ddarparu. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Cynllun Arweinwyr Cyfoed yn darparu cyflwyniad rhagorol i fywyd y myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor ac mae'n **nodwedd o arfer da**.

3.5 Apeliadau a chwynion

3.5.1 Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y wefan yn gyflwyniad da i bolisiâu, ond disgwylir i fyfyrwyr allu deall y ffurflenni a'r gweithdrefnau heb arweiniad pellach. Mae'r ymwybyddiaeth o weithdrefnau'n anghyson ar draws yr ysgolion, er bod y mwyafrif o fyfyrwyr a holwyd yn gwybod y byddent yn cael gwybodaeth am weithdrefnau yn eu llawlyfrau; fodd bynnag,

roedd hyn yn anghyson ac roedd y tîm adolygu'n teimlo y dylid ymdrin â'r mater yma.

3.6 Penodi a datblygu staff

3.6.1 Clywodd y tîm bod yr holl staff yn gwybod yn glir am y prosesau penodi a dyrchafu. Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau i gefnogi a datblygu staff, gan gynnwys Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu i gydnabod cyfraniadau rhagorol i addysgu, dysgu'r myfyrwyr a gofal bugeiliol myfyrwyr. Trafodir anghenion datblygiad y staff yn ystod proses flynyddol o Adolygu Datblygiad Perfformiad a chynhyrchir adroddiad trosolwg gan bennaeth pob ysgol ar gyfer y Grŵp Tasg Adnoddau Dynol. Rhoddir mentor i bob aelod newydd eu penodi o staff, a chaiff y Brifysgol gymryd rhan weithredol yn y Cynllun Mentora Menywod mewn Prifysgolion. Cynigir nifer o weithgareddau datblygiad staff yn y Gymraeg. Mae gan y Brifysgol wefan gynhwysfawr, sy'n rhoi gwybodaeth am ddarpariaeth, ac sydd â Chyfeirlyfr Dysgu a Datblygiad sy'n rhoi trosolwg o'r holl gyfleoedd sydd ar gael i staff.

3.6.2 Mae'r Uned Datblygu Academaidd yn hybu ac yn cefnogi gwaith ymchwil ymarferwyr i addysg uwch. Mae gofyn i'r holl staff addysgu sydd â llai na thair blynedd o brofiad addysgu di-dor mewn addysg uwch wneud Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Uwch. Mae cod ymarfer mwy ffurfiol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig sy'n addysgu yn cael ei ddatblygu. Arferir arsyllu addysgu gan gyfoedion ymhob ysgol a chaiff pob aelod o staff eu harsyllu unwaith y flwyddyn.

3.6.3 Gallai'r tîm gadarnhau effeithiolrwydd trefniadau'r sefydliad ar gyfer cefnogi a datblygu staff mewn perthynas â staff academaidd sy'n ymwneud ag addysgu.

3.7 Casgliad

3.7.1 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod modd teimlo **hyder** yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr. Tynnir sylw'r Brifysgol at argymhellion y tîm ym mharagraff 3.1.3, yn ymwneud ag adolygiad o'i strwythur pwyllgorau/tasgau gyda ffocws arbennig ar leoliad agenda blynyddol cynhwysfawr ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd, a'r argymhellion ym mharagraff 3.2.4.

4 Trefniadau cydweithredol

4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu diffiniad o ddarpariaeth gydweithredol sy'n cynnwys lleoliadau ymarfer mewn meysydd megis iechyd a gwaith cymdeithasol. Mae'r diffiniad yn cynnwys trefniadau trosglwyddo ond nid yw'n cynnwys cytundebau llwybr neu gynnydd. Y maen prawf sy'n llywio'r gwahaniaeth yw a ydyw partneriaeth yn gofyn aseinio dyfarniad neu gredyd y Brifysgol am gwblhau'r rhaglen a gynigir gan y sefydliad partner. Mae'r tîm o'r farn bod y gwahaniaeth yma'n adlewyrchu'r gofal y mae'r Brifysgol yn ei gymryd mewn cyfnod pan fo'n ystyried ehangu ei phortffolio o ddarpariaeth gydweithredol.

4.1.2 Mae'r Cynllun Strategol yn ymrwmo'r Brifysgol i ddatblygu 'cydweithrediadau ymchwil ac addysgu ar draws y byd' gan 'weithio'n weithredol gyda sefydliadau partner ledled rhanbarthau Gogledd a Chanolbarth Cymru'. Mae'r gweithgareddau yn y rhanbarth yn cynnwys sefydlu partneriaeth fawr gyda Phrifysgol Aberystwyth a dilysu amrywiaeth mawr o raglenni Gradd Sylfaen a gradd anrhydedd a gynigir gan Goleg Llandrillo.

4.2 Rheoli darpariaeth gydweithredol

4.2.1 Cafwyd rhywfaint o resymoli partneriaethau'r Brifysgol yn dilyn yr Archwiliad Ansawdd Mewnol yn 2009, yn cynnwys terfynu nifer o bartneriaethau ym maes diwinyddiaeth ac astudiaethau crefyddol. Roedd yr adolygiad yma'n gymeradwy am ei ddefnydd trwyadl o'r *Cod Ymarfer*. Mae'r partneriaethau yn y rhanbarth wedi'u gyrru, i raddfa fawr, gan fentrau Llywodraeth Cymru. Mae datblygiad partneriaethau tramor y Brifysgol yn y dyfodol i gael ei arwain gan ei Strategaeth Addysg Ryngwladol a gymeradwywyd yn ddiweddar, sy'n cynnig datblygu darpariaeth drawswladol drwy naill ai fodel dilysu neu fasnachfaint, negodi parhaus y trefniadau trosglwyddo a threfniadau gradd ddwbl, a chreu Swyddfa Datblygu Partneriaethau Rhyngwladol.

4.2.2 Daeth y tîm i'r casgliad bod y Pwyllgor Gweithredu'n cymryd camau priodol i sicrhau bod y portffolio o ddarpariaeth gydweithredol wedi'i ddatblygu mewn ffordd strategol ac y bydd trefniadau effeithiol yn eu lle i reoli partneriaethau. Yn ei drafodaethau gyda staff, fodd bynnag, sylwodd y tîm ar rywfaint o ansicrwydd am natur blaenoriaethau datblygu'r Brifysgol. Sicrhawyd y tîm bod y staff yn dod i ddeall strategaethau'r Brifysgol yn well diolch i gynhyrchiad diweddar o Strategaethau Rhyngwladol'r Colegau, adolygiad blynyddol y strategaethau hyn, a chreu grwpiau rheoli bychain ar gyfer pob un o farchnadoedd rhyngwladol y Brifysgol.

4.2.3 Rhoddodd adroddiad yr Archwiliad Ansawdd Mewnol sylwadau ffafriol am ganoli 'rhai elfennau' o reoli darpariaeth gydweithredol y Brifysgol, ac ym mis Medi 2011 cyfunodd y Brifysgol ddau grŵp craffu i ffurfio'r Grŵp Strategaeth Partneriaethau Addysgol. Mae cylch gwaith y Grŵp yn rhoi iddo'r cyfrifoldeb am gymeradwyo, monitro a gwerthuso partneriaethau. Hysbyswyd y tîm gan y staff uwch y byddai ehangiad portffolio darpariaeth gydweithredol y Brifysgol wedi'i lywio gan ddiwydrwydd dyladwy trwyadl a sicrhad cadarn o ansawdd, gan wneud yn siŵr bod y Grŵp Craffu Partneriaethau Allanol yn darparu goruchwyliaeth ganolog.

4.3 Monitro mewn darpariaeth gydweithredol

4.3.1 Hyd yn hyn, gan yr ysgolion a'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu y mae'r cyfrifoldeb am fonitro ac adolygu'r ddarpariaeth gydweithredol yn gyfnodol, ac mae'r Grŵp yma wedi gwneud defnydd mawr o'r wybodaeth a ddarperir gan ffurflenni QA1 ac adroddiadau cryno gan arholwyr allanol. Mae'r rhain wedi'u canolbwyntio'n bennaf ar faterion o gydymffurfiaid â gweithdrefnau, ac yn cynnwys ychydig iawn o wybodaeth gadarn yn ymwneud yn benodol â darpariaeth gydweithredol ysgol. Mae'r grŵp tasg hefyd yn ystyried adroddiadau'r Archwiliadau Ansawdd Mewnol sy'n cael eu paratoi bob pum mlynedd i bob ysgol, ac mae'r rhain yn dangos sylw dyledus i faterion sy'n codi o reolaeth ysgol ar ei darpariaeth gydweithredol. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth fonitro sydd ar gael yn rheolaidd i ysgolion yn amrywio yn dibynnu ar y math o bartneriaeth. Yn achos dwy fasnachfaint arall y Brifysgol, mae gofyn i ysgolion sefydlu byrddau astudiaethau ar y cyd, er bod y berthynas rhwng y byrddau ar y cyd yma a byrddau astudiaethau'r ysgol yn parhau heb eu diffinio, ac nad oes darpariaeth i roi aelodaeth i fyfyrwyr ar y byrddau ar y cyd.

4.3.2 Mae myfyrwyr wedi dweud bod eu cysylltiad â staff y Brifysgol wedi bod yn gyfyngedig. Nododd y tîm bod Archwiliad Ansawdd Mewnol 2009 o ddarpariaeth gydweithredol a masnachfaint wedi sôn hefyd gyda gonestrwydd cymeradwy am yr amrywiaeth yn ansawdd y cyfathrebiad rhwng ysgolion â'u sefydliadau partner, diffyg 'perchnogaeth' ar ran rhai ysgolion, ac annigonolrwydd eu gwaith i fonitro asesiad a darpariaeth y cwricwlwm. Cytunodd y tîm â barn y Brifysgol bod lle i wella yn ei chyfathrebiad â'i phartneriaid masnachfaint, a nododd hefyd nad oes darpariaeth i gynrychioli myfyrwyr ar fyrddau rhaglen ar y cyd. Ac eithrio safonwyr rhaglenni wedi'u dilysu, nid oes gofyn i ysgolion benodi staff gyda chyfrifoldebau am gysylltu gyda'u

sefydliadau partner.

4.3.3 Daeth y tîm i'r casgliad, felly, yng nghyd-destun adolygu cyfansoddiadau, atebolrwydd a gweithrediad grwpiau a phwyllgorau (gwelwch baragraff 1.3.6) y dylai'r Brifysgol adolygu atebolrwydd ac aelodaeth byrddau astudiaethau ar y cyd. Ymhellach, dylai'r Brifysgol ystyried sut y gallai wella ansawdd y wybodaeth y mae ysgol, ac felly'r Brifysgol ehangach, yn ei chael yn rheolaidd am ansawdd a safonau ei darpariaeth gydweithredol.

4.4 Casgliad

4.4.1 Canfu'r tîm adolygu bod gan y Brifysgol, yn gyffredinol, fframwaith cadarn ar gyfer ei threfniadau cydweithredol a'i bod yn gweithredu gydag ystyriaeth briodol i'r Cod Ansawdd, ond mae'n tynnu sylw'r Brifysgol at sylwadau ym mharagraffau 4.3.2. a 4.3.3.

5 Gwella ansawdd

5.1 Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu diffiniad ASA o welliant fel gweithred bwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu. Datblygwyd hyn drwy Strategaeth Gwella wedi'i diffinio'n eglur, ac yn dilyn hynny gynhwysiad y gwelliant yn y strategaeth addysgu a dysgu gyffredol a rennir gyda Phrifysgol Aberystwyth.

5.2 Mae wyth prosiect prifysgol wedi'u cwblhau ac ymysg ei ganlyniadau mae datblygu strategaeth cadw myfyrwyr, cymorth i fyfyrwyr, llunio meysydd cwricwlwm cyfrwng Cymraeg, archwilio rhyngwladoli'r cwricwlwm (yn arwain at Strategaeth Ryngwladoli i'r Brifysgol), a chodau ymarfer newydd neu ddiwygiedig ar gyfer gofal bugeiliol, cyflogadwyedd, dysgu ar leoliad ac asesiad. Mae prosiectau mwy diweddar wedi cynnwys y Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr, pridoledau graddedigion, asesiad ac adborth, a chydabod rhagoriaeth mewn addysgu. Mae hefyd esiamplau o brosiectau a mentrau sydd wedi arwain at welliannau cynaliadwy ac ar raddfa fawr mewn cyfleoedd dysgu ledled y Brifysgol. Maent yn cynnwys y cynllun arweinwyr cyfoed i helpu ymgeiswyr newydd, a Gwobr Cyflogadwyedd Bangor i fyfyrwyr israddedig.

5.3 Nododd y tîm adolygu waith arloesol Canolfan Bedwyr yn arbennig. Mae'r Ganolfan hon i'w gweld yn y strategaeth sefydliadol ar gyfer darparu gwell cyfleoedd dysgu i ddysgwyr Cymraeg yn ogystal â myfyrwyr israddedig cyfrwng Cymraeg. Mae'n gwneud defnydd mawr o waith ymchwil ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol, gan sicrhau cynrychiolaeth ar Gyngor Partneriaeth y Gymraeg er mwyn datblygu polisi a chynlluniau, gyda chydabyddiaeth gan y Sefydliad Materion Cymreig a Llywodraeth Cymru. Mae wedi gwneud datblygiadau pellach i Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg newydd ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ogystal â datblygu cyfleoedd lleoliad gwaith cyfrwng Cymraeg gyda chyflogwyr lleol - yn cynnwys hybu gweithfannau dwyieithog drwy wefan Cymorth Cymraeg. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod Canolfan Bedwyr yn **nodweddd o arfer da** oherwydd y camau pwrpasol a gymerir ar lefel sefydliadol i wella'r ddarpariaeth Gymraeg a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

5.4 Mae tystiolaeth i'w chael bod trafodaeth fanwl am welliant yn digwydd mewn Pwyllgorau Addysgu a Dysgu'r Ysgolion ac mewn grwpiau tasg, yn ogystal â chynllunio camau gweithredu systematig ar lefelau modiwl a rhaglen. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod bod angen lledaenu canlyniadau prosiectau gwella mewn ffordd fwy cyson a chydlynol. Cytunodd y tîm adolygu gyda'r sylw yma, ond mae hefyd yn nodi llwyddiant y sefydliad gyda rhai mentrau sydd wedi arwain at gynllunio camau gweithredu ymhob coleg neu ysgol. Yn gyffredinol, roedd y tîm yn ei chael hi'n anodd canfod gwerthusiad cyson a thrwyadl o weithgareddau gwella sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r canolfan gymorth sy'n gweithio ar draws y Brifysgol. Felly, mewn cyd-destyn gweithgaredd gwerthuso i wella, mae'r tîm o'r farn

y byddai'n **fanteisiol** annog y Brifysgol i ystyried cyflwyno gwerthusiad systematig o'i darpariaeth o gymorth academaidd.

Casgliad

5.5 Yn amodol ar sylwadau'r tîm adolygu uchod, canfuwyd bod y Brifysgol yn prysur ymgysylltu â'r adrannau a'r cyfadrannau yn y broses o weithredu ei hagenda i wella profiad y myfyrwyr. Ar sail y dystiolaeth yma, nododd y tîm adolygu bod y Brifysgol wedi llwyddo i gymryd camau pwrrpasol i annog, datblygu ac ymsefydlu gwelliant i'r cyfleoedd dysgu o fewn y Brifysgol, gyda pherchnogaeth gan staff mewn ysgolion, myfyrwyr, a grwpiau tasg. Tynnir sylw'r Brifysgol at argymhellion y tîm ym mharagraffau 3.2.4 a 5.4.

6 Trefniadau i fyfyrwyr ôl-raddedig

6.1 Amgylchedd a llywodraethu

6.1.1 Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â'r *Cod Ymarfer, Adran 1: Rhaglenni ymchwil ôl-raddedig*, ac mae hwn wedi'i gefnogi gan gyfres gynhwysfawr a diwygiedig o reoliadau sy'n dod â phum canllaw a chod ar wahân at ei gilydd. Cadarnhaodd y tîm adolygu bod y Brifysgol yn darparu ac yn goruchwyllo polisiâu a gweithdrefnau priodol sy'n sicrhau safonau uchel a chyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

6.1.2 Nododd y tîm adolygu ddadansoddiad systematig a rheolaidd y Brifysgol o adborth Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedigion (PRES), sy'n rhoi gwybodaeth ategol am foddhad y myfyrwyr gyda chyfleusterau ac adnoddau ymchwil; pwynt a atgyfnerthwyd drwy gyfarfodydd adolygu gyda myfyrwyr a staff. Roedd uchelgais y sefydliad i gefnogi niferoedd cynyddol o fyfyrwyr ymchwil drwy raglen Cymru-gyfan Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) - yn cysylltu gweithgareddau myfyrwyr ymchwil gydag amrywiaeth eang o weithleoedd a chyflogwyr - yn amlwg hefyd mewn dogfennaeth a chynllunio. Mae mentrau ymchwil eraill sy'n gwella'r amgylchedd ymchwil yn cynnwys cysylltiadau agos â Phrifysgol Aberystwyth a Chanolfan Bedwyr. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Brifysgol yn llwyddo i ddarparu amgylchedd o ansawdd uchel i'w myfyrwyr ymchwil. Mae llawer o botensial i hyn gael ei atgyfnerthu ymhellach drwy ehangu cynhadledd 'Y Tu Hwnt i Ffiniau' a drefnir gan y Fforwm i Ôl-raddedigion, er bod y tîm adolygu wedi nodi siom myfyrwyr ôl-raddedig gyda gohiriad cynhadledd eleni.

6.1.3 Mae'r Brifysgol yn datblygu rhaglen Ysgol i Raddedigion er mwyn gwella'r ddarpariaeth cymorth i fyfyrwyr ymchwil drwy rannu cyfrifoldeb a gweithio'n well gyda charfannau mwy o faint, yn cynnwys myfyrwyr rhyngwladol. Nododd y tîm adolygu mai araf yw'r cynnydd gyda'r fenter hon ar brydiau, ond mae'n croesawu penodiad Cyfarwyddwr yn ddiweddar i roi mwy o gydlyniant ac impetws i'r fenter hon drwy'r Brifysgol gyfan.

6.2 Derbyn, cynefino a chymorth

6.2.1 Mae gan y Brifysgol strwythurau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer derbyniadau sy'n cael eu prosesu'n ganolog gan y Gofrestrfa Academaidd, ac mae gan golegau staff derbyn ymroddedig. Mae cynllun peilot arloesol y Llysgennad Ôl-radd yn datblygu ar gyfer y cyfnod cynefino, sydd wedi'i seilio ar gynllun sefydledig y Brifysgol o arweinwyr cyfoed i gefnogi myfyrwyr israddedig. Mae dull rhagweithiol yn amlwg ar gyfer anawsterau posibl gyda llety a threfniadau cynefino i 'bobl yn cyrraedd yn hwyr' - yn arbennig fyfyrwyr ymchwil rhyngwladol.

6.2.2 Darperir gwybodaeth fanwl a chynhwysfawr drwy'r llawlyfr generig ar-lein ar gyfer myfyrwyr ymchwil a goruchwylwyr, sydd hefyd yn darparu arwyddbyst at ddogfennau a

pholisïau allweddol eraill gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer arferion annheg, cwynion ac apeliadau. Mae rhai ysgolion hefyd yn darparu gwybodaeth llawlyfr i gymunedau ymchwil penodol, er nad yw hyn yn ymarfer safonol. Mae'r tîm adolygu'n annog y Brifysgol i ystyried darparu gwybodaeth fwy manwl drwy'r rhaglen Ysgol i Raddedigion newydd.

6.2.3 Mae'r Cyfarwyddwyr Astudiaethau Ôl-radd mewn ysgolion yn goruchwyllo rhaglenni datblygu hyfforddiant i fyfyrwyr ymchwil. Nododd y tîm adolygu adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr ymchwil am y safon a'r amrywiaeth trawiadol o gyrsiau, y gellir eu dewis o gyfres o fodiwlau sydd wedi'u cydlynu gan yr Uned Datblygu Academaidd fel rhan o'i Rhaglen Sgiliau Graddedigion a'i Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr Cam Cynnar. Nododd y tîm hefyd bod y Brifysgol yn cynnig canlyniadau wedi'u hachredu drwy'r Cymhwyster Ôl-radd mewn Datblygu Sgiliau, sy'n cynnwys defnyddio'r Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi a Chynllunydd Datblygiad Proffesiynol ar-lein yn ogystal â hyfforddiant yn benodol i ddisgyblaeth drwy'r ysgolion.

6.2.4 Cydnabu'r tîm adolygu ymwybyddiaeth y Brifysgol o bryderon am yr amrywiaeth mewn arferion yn ymwneud â'r trefniadau a'r polisïau i gefnogi myfyrwyr ôl-raddedig sy'n dysgu ac asesu, a chroesawodd y cynnydd a wnaed gan y sefydliad i ffurfio canllawiau a'r polisïau er mwyn egluro'r llwythi gwaith, y gofynion hyfforddi a'r contractau addysgu. Mae'r Brifysgol yn nodi y bydd gan bob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig diwtor personol sy'n ychwanegol at y goruchwylwr, er nad oes llawer o eglurhad mewn llawlyfrau ysgol am y trefniadau ar gyfer cefnogaeth tiwtoriaid personol. Nododd y tîm drwy drafodaethau mewn cyfarfodydd adolygu bod y Cyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-radd yn darparu pwynt cysylltu arall i'r goruchwylwr mewn achosion lle mae anawsterau personol efallai, er bod lle i egluro'r rôl yma ymhellach yn yr wybodaeth a roddir i fyfyrwyr ymchwil.

6.2.5 Nododd y tîm ymhellach, er bod gofyn i bob ysgol a'r Brifysgol ystyried data cyfweliad a chynnydd i fyfyrwyr ymchwil yn rhan o archwiliadau ansawdd mewnol cyfnodol, mae'n ymddangos bod myfyrio o'r fath yn rhy fyr o'i gymharu â'r dadansoddiad mwy amlwg o brofiadau myfyrwyr israddedig a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir.

6.3 Goruchwyllo

6.3.1 Nododd y tîm adolygu bod cyfleoedd datblygiad staff yn cael eu darparu drwy'r Uned Datblygu Academaidd i oruchwylwyr drwy weithdai hyfforddi pwrpasol. Nid yw goruchwylwyr fel arfer yn goruchwyllo nifer gyfatebol o fwy na chwe myfyriwr PhD llawn amser ar yr un pryd, ac mae'r sefydliad yn dweud y dylid trefnu cyfarfodydd rheolaidd rhwng goruchwylwyr a myfyrwyr ymchwil, er bod maint yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cyfarfodydd fel petai'n amrywio rhwng pwyllgorau goruchwyllo ac ar draws ysgolion. Efallai yr hoffai'r Brifysgol ystyried darparu rhagor o arweiniad i oruchwylwyr a'u myfyrwyr ymchwil.

6.3.2 Mae gweithdrefnau trwyadl sydd wedi'u diffinio'n dda ar gyfer monitro myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig gan bwyllgorau goruchwyllo a'r Senedd, er bod y tîm adolygu wedi nodi bod y sefydliad yn gwybod am sefyllfaoedd lle gallai ansawdd ac amllder yr wybodaeth gan ysgolion gael eu gwella. Er bod goruchwylwyr yn cael gwybod am adroddiadau sydd wedi mynd ar goll, mae'n ymddangos nad oes trefn systematig ar gyfer ymdrin yn gyflym â hyn ar lefel ysgol. Dylid annog y Brifysgol i archwilio dulliau o sicrhau, lle mae gwybodaeth yn anghyflawn, bod darparu diweddariadau monitro yn dod yn ymarfer safonol er mwyn pennu anawsterau potensial neu ofynion cymorth. Roedd y tîm adolygu'n croesawu ymhellach y lansiad, oedd wedi'i gynllunio ym mis Medi 2012, o system electronig yn hysbysu pwyllgorau goruchwyllo am ddyddiadau cau ar gyfer adrodd.

6.4 Casgliad

6.4.1 Yn gyffredinol, canfu'r tîm adolygu bod gan y Brifysgol fframwaith cadarn ar gyfer ei

threfniadau i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae'r amgylchedd ymchwil a phrofiad ymchwil ôl-raddedig yn cyflawni disgwyliadau'r Cod Ansawdd. Nododd y tîm waith Canolfan Bedwyr (gwelwch baragraff 5.3) ar lefelau ôl-raddedig ac israddedig a'r cynllun llysgennad sydd wedi'i seilio ar y cynllun Arweinwyr Cyfoed (gwelwch baragraff 3.4.5) sydd wedi'u henwi'n barod fel **nodweddion o arfer da**.

7 Gwybodaeth gyhoeddus

7.1 Canfu'r tîm adolygu bod gan y Brifysgol weithdrefnau ar waith i wirio cywirdeb yr wybodaeth gyhoeddedig (a gwybodaeth gyhoeddedig ei phartneriaid cydweithredol). Mae'r myfyrwyr i gyd yn derbyn llawlyfr myfyrwyr, sy'n darparu'r wybodaeth hanfodol, ond nododd y tîm bod anghysondeb ar draws y colegau a'r ysgolion yn yr ystod gyfan o wybodaeth a ddsberthir. Er enghraifft, nid yw rhai llawlyfrau myfyrwyr yn cynnwys gwybodaeth am farcio dienw, y system cynrychiolaeth myfyrwyr neu'r meini prawf marcio. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyson yn llawlyfrau'r myfyrwyr.

7.2 Yn yr un modd, nododd y tîm anghysonderau yn yr wybodaeth a ddarperir ar dudalennau gwe'r Brifysgol yn cynnwys y rheiny sy'n hysbysebu cyrsiau ac ysgolion i ddarpar fyfyrwyr. Er bod gan lawer o'r wybodaeth gyfeiriadau clir, mae rhai'n cyfeirio at dystiolaeth sy'n amherthnasol ac wedi mynd yn hen. Mewn rhai achosion, nid oes cyfeiriad yn yr wybodaeth bob amser ar bob tudalen gwe berthnasol a gallai hyn fod yn gamarweiniol i ddarpar fyfyrwyr. Mae'r tîm o'r farn y byddai'n **fuddiol** i'r Brifysgol gymryd camau i sicrhau bod yr wybodaeth a roddir i ddarpar fyfyrwyr drwy wefan gyfan y Brifysgol yn gywir ac yn gyfredol.

Casgliad

7.3 Canfu'r tîm adolygu bod y wybodaeth a gyhoeddir gan y Brifysgol mewn perthynas â'i darpariaeth yn gywir, cynhwysfawr a dibynadwy ar y cyfan. Mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n cydymffurfio â *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*. Ond, mae'r tîm yn tynnu sylw'r Brifysgol at yr argymhellion ym mharagraffau 7.1.1 a 7.1.2.

Atodiad A: Ynghylch Prifysgol Bangor

Agorodd Prifysgol Bangor (y Brifysgol) (dan yr enw 'Coleg Prifysgol Gogledd Cymru') ym mis Hydref 1884. Codwyd arian drwy apêl gyhoeddus i sefydlu coleg o safon prifysgol ym Mangor, a nodwedd bwysig o'i sefydliad oedd y cyfraniadau gwirfoddol a gafwyd gan weithwyr lleol, yn ddynion a merched, o'u cyflogau wythnosol. Daeth y Coleg yn un o aelodau sylfaenol Prifysgol Cymru ffederal ym 1893, ac o'r dyddiad hwnnw cynigiodd raddau Prifysgol Cymru.

Yn 2007, derbyniodd y Brifysgol ei phwerau dyfarnu graddau a addysgir a'i graddau ymchwil ei hun a 'theitl prifysgol' (fel 'Prifysgol Bangor') yn dilyn adolygiad gan ASA, oedd yn cyddaro ag Adolygiad Sefydliadol ASA, a gyhoeddwyd yn 2007. Daliwyd y pwerau hyn yn eu holau nes y penderfynodd Cyngor y Brifysgol ddechrau dyfarnu graddau Prifysgol Bangor o fis Hydref 2009.

Yn yr 1950au a'r 1960au, cyflwynwyd llawer o feysydd astudio newydd yn cynnwys eigioneg, seicoleg, ieithyddiaeth a chymdeithaseg. Fodd bynnag, yn ystod yr 1980au, diolch i gyfyngiadau ariannol, roedd yn rhaid cyfyngu ar y pynciau a gynigiwyd ym Mangor, a chaewyd nifer o adrannau (megis ffiseg, athroniaeth a'r clasuron). Cyfunodd dau goleg lleol gyda'r Brifysgol: Coleg y Santes Fair (1976) a'r Coleg Normal (1996). Yn eu hanfod, roedd y ddau yma'n golegau hyfforddi athrawon, er bod y Coleg Normal wedi dechrau cynnig meysydd eraill dros y blynyddoedd. Yn ogystal, ymunodd y colegau nyrsio, bydwreigiaeth a radiograffeg oedd yn annibynnol gynt, â'r Brifysgol yn yr 1990au cynnar.

Yn 2010-11, roedd gan y Brifysgol oddeutu 9,200 o fyfyrwyr llawn amser, a 1,980 o fyfyrwyr rhan amser. Mae oddeutu 43 y cant o fyfyrwyr yn dod o Gymru, mae 13.5 y cant o dramor ac mae'r gweddill o weddill y DU ac o Ewrop. Mae'r Brifysgol yn cyflogi oddeutu 2,233 o staff (llawn amser a rhan amser). Mae ganddi ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg ac mae'n gweithredu mewn amgylchedd dwyieithog sy'n cynnig cyfleusterau cyfieithu yn ei phwyllgorau a'i grwpiau tasg. Mae oddeutu 1,795 o fyfyrwyr a 918 o staff yn eu disgrifio eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae gan y Brifysgol 23 o ysgolion academaidd sydd wedi'u grwpio'n chwe choleg i bwrpasau gweinyddol ac adnoddau, ynghyd â nifer o ganolfannau ymchwil o fewn colegau, a nifer fechan o sefydliadau ymchwil rhyngddisgyblaethol sy'n disgyn y tu allan i'r strwythur adrannol. Mae'r Brifysgol yn cynnig mwy na 450 o raglenni gradd israddedig (anrhydedd a chydanhrydedd) a mwy na 120 o raglenni ôl-raddedig a addysgir a rhaglenni ymchwil.

Cenhadaeth a chynllun strategol

Mae Cenhadaeth y Brifysgol yn dweud y bydd 'Prifysgol Bangor yn Brifysgol flaenllaw sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil gydag enw da'n rhyngwladol am ei haddysgu a'i hymchwil, sy'n meithrin datblygiad deallusol a phersonol ei myfyrwyr a'i staff, yn darparu amgylchedd amlddiwylliannol cefnogol, yn hyrwyddo ehangu mynediad a chynhwysedd, ac yn cefnogi ffyniant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru a'r gymuned ehangach y mae'n ei gwasanaethu. Caiff Prifysgol Bangor ei chydabod yn rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth ar sail ei phortffolio amrywiol o raglenni academaidd ac am ansawdd uchel y profiad y mae'n ei roi i'w myfyrwyr a'i staff.' Mae'r Cynllun Strategol cyfredol yn nodi prif nodau ac amcanion y Brifysgol ar sail nifer o themâu blaenoriaeth allweddol, sydd wedi'u crynhoi fel yma: mynediad at addysgu a dysgu rhagorol; rhoi profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr; cryfhau ansawdd a maint ymchwil a menter; chwarae rhan flaenllaw yn yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, yn lleol a chenedlaethol; a gosod ei hun

fel Prifysgol fyd-eang, gydag enw da am gynaliadwyedd a mynd i bartneriaeth â sefydliadau yng Nghymru i gyflwyno 'Er Mwyn ein Dyfodol'.

Ymysg nifer o strategaethau a ddatblygwyd i gefnogi'r cynllun yma mae Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr a Strategaeth Addysg Ryngwladol a ffurfiwyd i bwysleisio dimensiwn rhyngwladol cenhadaeth y Brifysgol. Mae'r strategaethau hyn wedi'u llunio i helpu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o fentrwyr rhyngwladol, gwyddonwyr, arweinwyr ac yn y blaen, ac i baratoi dysgwyr ar gyfer y farchnad ryngwladol. Mae'r Brifysgol yn cydweithredu â Phrifysgolion Caerdydd ac Abertawe, ac â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Gogledd Cymru, i ddatblygu Addysg Feddygol yng Ngogledd Cymru. Mae hefyd yn rhedeg prosiect Cynghrair Iechyd Strategol ar gyfer Ymchwil ac Addysg (SHARE) gyda Phrifysgol Caerdydd.

Ffurfiwyd adran ganolog, Canolfan Bedwyr, i hybu a chefnogi darpariaeth addysgu cyfrwng Cymraeg y sefydliad, er mwyn hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg wrth weinyddu'r sefydliad ac, yn gyffredinol, i weithredu fel catalydd o ran datblygu Prifysgol Bangor i fod yn ganolfan ragoriaeth mewn addysg cyfrwng Cymraeg a gwasanaethau iaith Gymraeg. Mae hon yn rhan bwysig o strategaeth y Brifysgol. Mae'r adran hon wedi ennill canmoliaeth ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol, nid yn unig am ei gwaith arloesol i ddatblygu a hybu defnyddio'r iaith Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor, ond hefyd am ei gwaith yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y byd ehangach. Mae'r Brifysgol yn cymryd rôl weithgar iawn yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a sefydlwyd yn ddiweddar, sef cwmni a ffurfiwyd gan y sector addysg uwch yng Nghymru gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, i gynyddu ac ehangu addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Brifysgol wedi ymateb i bolisiau addysg uwch Llywodraeth Cymru a'i hagenda ar gyfer ailstrwythuro addysg uwch, ac mae wedi'i hymrwymo, gyda Phrifysgol Aberystwyth, i gryfhau'r 'Bartneriaeth Aber-Bangor' drwy Gynghrair Strategol newydd. Nod hon yw archwilio'r posibilrwydd o gydweithio fwy mewn dysgu ac addysgu, ymchwil a menter a rhannu gwasanaethau. Yn rhan o'i darpariaeth gydweithredol, mae'r Brifysgol hefyd wedi datblygu partneriaeth strategol gyda Choleg Llandrillo. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae nifer o raglenni newydd a phresennol yn Llandrillo wedi'u dilysu gan Brifysgol Bangor (roedd y gwaith dilysu'n cael ei wneud cyn hynny gan Brifysgol Cymru) a brandio 'Canolfan y Brifysgol' yng Ngholeg Llandrillo.

Mae'r Brifysgol wedi ymateb i alwad CCAUC am gynlluniau rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar fynediad daearyddol, llwybrau cynnydd mwy eglur, a graddfa uwch o ymatebolrwydd i anghenion lleol drwy ddatblygu CADARN (Cydweithio a Datblygu ar draws Rhwydweithiau Rhanbarthol) mewn cydweithrediad â Phrifysgolion Aberystwyth a Glyndŵr, y Brifysgol Agored a Choleg Llandrillo, er ei fod hefyd yn cwmpasu'r holl golegau addysg bellach eraill yn y rhanbarth. Mae CADARN yn adolygu'r ddarpariaeth yn y rhanbarth ac yn tynnu sylw at gynigion am ddarpariaeth newydd, i ehangu mynediad, cynyddu ymgysylltiad â chyflogwyr, a rhannu gwasanaethau penodol.

Atodiad B: Ymateb gan Brifysgol Bangor

Mae Prifysgol Bangor yn croesawu canlyniad yr Adolygiad Sefydliadol a'r beirniadaethau bod modd teimlo hyder yng nghadernid ein rheolaeth bresennol a'n rheolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ein dyfarniadau, a bod modd teimlo hyder yng nghadernid ein rheolaeth bresennol a'n rheolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr.

Mae'r Brifysgol yn gwerthfawrogi manylder y craffu a wnaed, a'r ffaith fod yr adolygiad wedi'i weithredu mor drwyadl.

Rydym yn derbyn y canfyddiadau a'r argymhellion a nodwyd yn yr Adolygiad, ac wedi dechrau eu gweithredu yn barod.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym at dermau yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Mae gan nifer o dermau 'ddiffiniadau gweithredol' ffurfiol hefyd. Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn y Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol: Cymru, sydd ar gael ar ein gwefan ar:

www.gaa.ac.uk/institutionreports/types-of-review/pages/adolygiad-sefydliadol-cymru.aspx.

Os byddwch eisiau 'diffiniadau gweithredol' ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar **sicrhau safonau ac ansawdd** ar ein gwefan:

www.gaa.ac.uk/assuringstandardsandquality/pages/default.aspx.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan ASA: www.gaa.ac.uk/aboutus/rhestr/pages/default.aspx.

Adolygiad Sefydliadol Dull o adolygu a ddefnyddir gan ASA i sicrhau safonau ac ansawdd addysg uwch. Yn y cyhoeddiad hwn, mae'n dynodi'r broses sicrhau ansawdd sy'n berthnasol i sefydliadau yng Nghymru.

ansawdd academaidd Term cyffredinol sy'n cyfeirio at y ffordd mae sefydliadau'n rheoli cyfleoedd dysgu ac addysgu, a pha mor dda maent yn eu rheoli, i helpu myfyrwyr i symud ymlaen a llwyddo.

arfer da Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu ASA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i reolaeth sefydliad ar safonau academaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau archwilio ac adolygu ASA.

arholi allanol Y broses a ddefnyddir gan un neu fwy o arbenigwyr annibynnol (**arholwyr allanol**) i roi sylw ar gyflawniad myfyrwyr mewn perthynas â **safonau academaidd** sefydledig ac am agwedd y sefydliad tuag at asesiad, gan felly helpu i sicrhau bod safonau'n gyson a gweithdrefnau asesu'n deg ledled y DU.

arholwr allanol Arbenigwr annibynnol a benodir gan sefydliad i roi sylwadau ar gyflawniad myfyrwyr mewn perthynas â **safonau academaidd** sefydledig ac i edrych ar ddulliau o ymdrin ag asesiad.

beirniadaeth o hyder Beirniadaeth gan un o dimau adolygu ASA mewn Adolygiad Sefydliadol y 'gellir teimlo hyder yn rhesymol yng nghadernid rheolaeth bresennol sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei ddyfarniadau ac/neu ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr' (dwy feirniadaeth ar wahân, un ar safonau a'r llall ar gyfleoedd dysgu). Ar y llaw arall, gallai'r tîm fynegi 'hyder cyfyngedig' neu 'ddim hyder' yn y materion hyn.

canlyniad dysgu Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Cod Ansawdd Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sy'n cael ei ddatblygu o 2011 i gymryd lle'r **Seilwaith Academaidd** a bydd yn cynnwys ei elfennau allweddol i gyd, ynghyd â phynciau ychwanegol a themâu trosfwaol.

Cod Ymarfer Y *Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch*: cyfres o ddogfennau rhyngberthynol sy'n rhoi arweiniad i sefydliadau addysg uwch.

credyd(au) Ffordd o fesur a chydabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu rhaglenni astudio addysg uwch, wedi'i fynegi fel 'nifer o gredydau' ar lefel benodol.

cyfleoedd dysgu Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys **rhaglenni astudio** a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academaidd a phersonol, adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios) a datblygiad staff.

cymorth dysgu Cymorth personol a chyfleusterau a systemau eraill a roddir yn eu lle i helpu myfyrwyr yn eu dysgu.

cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio Cyrff sy'n gosod y safonau meincnod ar gyfer proffesiwn/broffesiynau penodol ac sy'n rheoleiddio'r safonau ar gyfer mynediad i mewn i'r proffesiwn/proffesiynau ac sydd â'r awdurdod i achredu, cymeradwyo neu gydnabod rhaglenni penodol sy'n arwain at y cymhwyster/cymwysterau proffesiynol perthnasol - y mae ganddynt gyfrifoldeb statudol neu reoleiddio amdano/amdanynt efallai.

darpariaeth gydweithredol Term a ddefnyddir i ddisgrifio sut mae sefydliadau'n cydweithio i ddarparu addysg uwch, gan gynnwys cyfleoedd dysgu, cymorth i fyfyrwyr ac asesiad, gan arwain at gymhwyster gan un neu fwy o sefydliadau dyfarnu.

datganiad meincnod pwnc Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlyniad a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

diffiniad gweithredol Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adroddiadau.

dysgu o bell Cwrs neu uned astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiworiaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngwyd, mewnwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'.

ehangu cyfranogaeth Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

fframwaith Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd y **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

fframwaith cymwysterau addysg uwch Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ) a'r Fframwaith ar gyfer cymwysterau sefydliadau addysg uwch yn yr Alban (FQHEIS).

fframwaith rheoli academaidd Y strwythur sydd ar waith mewn sefydliad ar gyfer rheoli safonau ac ansawdd academaidd.

gwelliant Cymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd y **cyfleoedd dysgu**. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau archwilio ac adolygu ASA.

gwybodaeth gyhoeddus Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

manylebau rhaglen Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r **rhaglenni astudio**, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

meini prawf asesu Y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae marcwyr yn disgwyl i fyfyrwr eu dangos mewn tasg asesu, ac a gymerir i ystyriaeth wrth farcio'r gwaith. Mae'r meini prawf hyn wedi'u seilio ar y canlyniadau dysgu a fwriedir.

modiwl Uned astudio hunangynhwysol, wedi'i strwythuro'n ffurfiol, gyda chyfres eglur a rhesymegol o **ganlyniadau dysgu** a **meini prawf asesu**. Mae rhai sefydliadau'n defnyddio'r gair '**cwrs**' i gyfeirio at fodiwlau unigol.

nodwedd o arfer da Agwedd gadarnhaol o'r ffordd y mae sefydliad addysg uwch yn rheoli ansawdd a safonau, y gellid eu gweld fel esiamplau rhagorol i bobl eraill.

rhaglen (astudio) Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

rheoliadau asesu Y rheoliadau sy'n llywio asesiad o raglen astudio, gan gynnwys y cynllun marcio, y marc pasio, y gofynion ar gyfer symud ymlaen i lefelau neu gamau dilynol rhaglen a'r gofynion dyfarnu a dosbarthu (er enghraifft, credydau sydd i gael eu cyflawni a marciau penodol sydd i gael eu hennill).

safon academiaidd trothwy Y safon ofynnol y dylai myfyrwr ei chyrraedd er mwyn ennill cymhwyster neu ddyfarniad penodol, fel y mae wedi'i disgrifio yn y **datganiadau meincnod pwnc** a'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol. Mae safonau trothwy'n wahanol i safonau perfformiad y mae angen i fyfyrwr eu cyflawni er mwyn ennill unrhyw ddsbarth penodol o ddyfarniad, er enghraifft gradd baglor o'r radd flaenaf. Gweler hefyd **safon academiaidd**.

safonau academiaidd Y safonau a osodir gan sefydliadau ac a gynhelir ganddynt ar gyfer eu cyrsiau a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academiaidd trothwy**.

safoni Proses a sefydlwyd i sicrhau bod canlyniad asesiad yn deg a dibynadwy a bod meini prawf asesu wedi'u gweithredu'n gyson.

Seilwaith Academiaidd Arweiniad a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan y gymuned addysg uwch ac a gyhoeddir gan ASA, a ddefnyddir gan sefydliadau i sicrhau bod eu cyrsiau'n cyflawni disgwyliadau cenedlaethol mewn perthynas â safonau academiaidd a bod amgylchedd addas ar gael i'r myfyrwr allu mynd iddo i ddysgu (ansawdd academiaidd). Mae'n cynnwys pedwar grŵp o bwytiau cyfeirio: **fframweithiau cymwysterau addysg uwch**, **datganiadau meincnod pwnc**, **manylebau rhaglenni** a'r **Cod Ymarfer**. Mae gwaith ar droed (2011-12) i ddiwygio'r Seilwaith Academiaidd fel Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

RG 964 10/12

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Southgate House
Southgate Street
Caerloyw
GL1 1UB

Ffôn 01452 557000
Ffacs 01452 557070
Ebost comms@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2012

ISBN 978 1 84979 616 3

Mae holl gyhoeddiadau ASA ar gael ar ein gwefan www.qaa.ac.uk.

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786